



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: **WG43252**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

Ardrethi Annomestig

Ymgynghoriad technegol ar y Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu
(Cymru) (Coronafeirws) 2021 drafft

Hydref 2021

Golwg gyffredinol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 drafft

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: LGFR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y dogfennau ymgynghori: [Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu \(Cymru\) \(Coronafeirws\) 2021 drafft](#)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Apeliadau ardrethi sy'n ymwneud â Covid-19	4
Cynigion	5
Ymgysylltu.....	5
Trosolwg o'r Ymatebion.....	6
Crynodeb o'r Ymatebion.....	6
Y camau nesaf	8
Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr	9

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 drafft.
2. Codir ardrethi annomestig ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig yng Nghymru. Cyfrifir atebolrwydd drwy luosi'r gwerth ardrethol, a bennir yn annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, â'r lluosydd blynyddol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru.
3. Pan fo talwr ardrethi yn ystyried bod ei werth ardrethol yn rhy uchel, gall herio'r gwerth ardrethol gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Diben y broses apelio yw darparu gwiriad ar gadernid methodoleg brisio'r Asiantaeth, gan sicrhau bod nodweddion eiddo drwy'r sylfaen drethi yn cael eu prasio'n gyson. Fel rhan o'r broses, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asesu'r dystiolaeth a ddarparwyd ac yn penderfynu a ddylid addasu'r gwerth ardrethol. Os bydd talwyr ardrethi yn parhau i fod yn anhapus yn dilyn y penderfyniad, gallant fynd â'u hapêl i Dribiwnlys Prasio Cymru lle bydd yr achos yn cael ei adolygu.
4. Un o'r rhesymau dros apelio yw bod Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau wedi effeithio ar eiddo. Yn hanesyddol, mae apelïadau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau wedi'u cysylltu â digwyddiadau untro, megis difrod o lifogydd, yn hytrach na newidiadau yn amodau'r farchnad.
5. Yn ystod pandemig Covid-19, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr apelïadau, gyda llawer yn nodi amodau masnachu Covid-19 a chyfyngiadau fel Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Mae'r apelïadau hyn wedi dod ar adeg pan fo lefel ddigynsail o gymorth ariannol wedi'i darparu i fusnesau drwy gynlluniau rhyddhad ardrethi, grantiau wedi'u targedu a mecanweithiau eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhoi cymorth i fusnesau yr effeithiwyd arnynt fwyaf ar wahanol gamau'r pandemig.

Apeliadau ardrethi sy'n ymwneud â Covid-19

6. Mae'r nifer fawr o apelïadau a ysgogwyd gan y pandemig yn peri risg sylweddol i Gyllideb Llywodraeth Cymru ac, yn ei dro, i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol, yn ogystal â rhoi pwysau gweithredol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Tribiwnlys.
7. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi deddfu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Ym mis Mawrth, cyflwynodd Llywodraeth y DU [reoliadau](#), tebyg i'r rhai y mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â hwy, i atal apelïadau pellach rhag cael eu gwneud ar sail materion sy'n ymwneud â Covid-19. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth y DU yn mynd ar drywydd mesurau drwy'r [Bil Ardrethu \(Coronafeirws\) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr \(Cwmnïau a Ddiddymwyd\)](#) (y Bil) sy'n mynd rhagddo drwy'r Senedd. Bydd y Bil, os caiff ei basio, yn cael yr effaith o ddiystyru apelïadau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau yn ymwneud â Covid-19 sydd wedi'u cyflwyno ers dechrau'r pandemig.

8. Mae'r Rheoliadau drafft y gwnaethom ymgynghori arnynt yn debyg i'r rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am i ddarpariaethau ar gyfer Cymru gael eu cynnwys ym Mil y DU. Mae sicrhau bod polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn yn gyson â'i gilydd yn rhoi eglurder a chysondeb i dalwyr ardrethi, ac i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru wrth iddynt gyflawni eu rolau. Bwriedir i'r rheoliadau drafft, os cânt eu gwneud, gael eu dirymu yn union cyn i'r darpariaethau yn y Bil gychwyn.
9. Ar 7 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) yn nodi ei safbwynt ynghylch y cynnydd mewn apeliadau sy'n cyfeirio at Covid-19.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr apeliadau hyn yn adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad economaidd, yn hytrach na'u bod yn ganlyniad i ddigwyddiad penodol. Ar y sail hon, y polisi yw y dylid diystyru apeliadau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n nodi materion yn ymwneud â Covid-19, gan fod ffactorau sy'n effeithio ar amodau ehangach y farchnad yn cael eu hystyried yn yr ailbrisio statudol sy'n digwydd yn rheolaidd, a bod ystod o gymorth busnes wedi'i ddarparu mewn ymateb i'r pandemig. Bydd y cylch ailbrisio ardrethi annomestig nesaf yng Nghymru yn dod i rym yn 2023, yn seiliedig ar werthoedd eiddo ar 1 Ebrill 2021.
11. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar Reoliadau drafft a fyddai'n atal rhagor o apeliadau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau rhag cael eu cyflwyno gan nodi materion yn ymwneud â Covid-19. Roedd yr ymgynghoriad yn dechnegol ei natur ac roedd yn ceisio barn ar agweddau ar y ddeddfwriaeth.

Cynigion

12. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid defnyddio'r *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 drafft* i fynd i'r afael â chynnydd posibl mewn apeliadau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau yn y dyfodol a gyflwynir gan nodi materion sy'n ymwneud â Covid-19. Byddai'r Bil, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru, yn gymwys i apeliadau a gyflwynwyd ers dechrau'r pandemig ac i apeliadau yn y dyfodol. Felly, ni fydd angen y Rheoliadau mwyach os bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

Ymgysylltu

13. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 16 Mehefin 2021 a daeth i ben ar 27 Medi 2021. Cafodd ei gyhoeddi ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd yr ymgynghoriad hefyd at randdeiliaid sydd â diddordeb yn y materion a godwyd. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.
14. Amgaeir rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Trosolwg o'r Ymatebion

15. Cafwyd chwe ymateb i gyd. Cafwyd ymatebion gan gymysgedd o gyrrff cynrychioliadol, llywodraeth leol ac unigolion.

Crynodeb o'r Ymatebion

16. Mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Ni fwriedir iddi nodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, ond yn hytrach mae'n amlinellu'r themâu allweddol.

C1. A ydych yn credu bod unrhyw broblemau o ran cychwyn y rheoliadau o'r dyddiad y cânt eu gosod?

17. Ni chododd pump o'r chwe ymatebydd unrhyw faterion yn ymwneud â chychwyn y rheoliadau o'r dyddiad y'u gosodir. O'r pum ymateb, tynnodd un sylw at yr angen i gyfathrebu'n glir â thalwyr ardrethi am unrhyw newidiadau cyn eu cyflwyno. Gwnaeth un ymatebydd sylwadau ar y polisi gwaelodol.

C2. A yw'r ymatebion a'r mesurau a restrir o dan reoliad 2(1) o'r rheoliadau drafft yn diffinio'n briodol yr ymatebion a'r mesurau cysylltiedig â Covid-19 a allai effeithio ar werth ardrethol eiddo?

18. Roedd pump o'r chwe ymatebydd o'r farn bod y mesurau a restrwyd i ddiffinio ymatebion a mesurau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn briodol. Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

C3. A yw geiriad rheoliad 2(2) o'r rheoliadau drafft yn rhoi'r eglurder angenrheidiol i atal apeliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 rhag cael eu gwneud yn y dyfodol?

19. Yn yr un modd, roedd pump o'r chwe ymatebydd yn teimlo bod y geiriad yn rheoliad 2(2) yn rhoi'r eglurder angenrheidiol. Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

C4. A oes angen unrhyw eglurder pellach yn y diffiniadau a nodir yn rheoliad 2(3) o'r rheoliadau drafft?

20. Dywedodd pob ymatebydd nad oedd angen unrhyw eglurder pellach o fewn rheoliad 2(3).

C5. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y rheoliadau drafft?

21. Darparodd 34 o randdeiliaid ystod o sylwadau eraill mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, gwnaeth un sylwadau ar y safbwynt polisi, tra bod un arall yn cyfeirio at bwyntiau a godir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon o dan [Sylwadau Ehangach](#).

22. Ni ddarparodd dau ymatebydd unrhyw sylwadau.

C6. Hoffai Llywodraeth Cymru gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol:

- i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

23. Soniodd un ymatebydd am yr effaith ar siaradwyr uniaith Saesneg yng Nghymru. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan ymatebwyr eraill.

C7. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid rheoliadau drafft, yn eich barn chi, er mwyn:

- i. cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii. peidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

24. Fel yng nghwestiwn 6, gwnaeth un ymatebydd sylwadau ar yr effaith ar siaradwyr Saesneg yn unig, ac ni fynegodd yr ymatebwyr eraill unrhyw bryderon.

C8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

25. Ailadroddodd dau ymatebydd bwyntiau a godwyd o dan [Gwestiwn 5](#). Ni wnaed unrhyw sylwadau gan yr ymatebwyr eraill.

Sylwadau Ehangach

26. Roedd y sylwadau'n ehangach yn cytuno'n gyffredinol â'r rhesymeg y gellid ystyried mesurau Covid-19 fel newidiadau yn amodau'r farchnad a thynnwyd sylw at bwysigrwydd ystyried y ffactorau hyn fel rhan o'r ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf. Nododd ymatebwyr y gallai rhai ffactorau na ellir eu priodoli i Covid-19 barhau i arwain at apeliadau ac y byddai angen ystyriaeth ofalus o ran sut y byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ymdrin â'r rhain.

27. Soniodd un ymatebydd am y safbwynt polisi a'r modd yr ymdrinnir ag apeliadau sy'n nodi materion yn ymwneud â Covid-19. Roedd y sylwadau'n cyfeirio at effaith bosibl mesurau Covid-19 ar ddefnyddio eiddo lle'r oedd talwyr ardrethi annomestig wedi cyflwyno apeliadau ac ar ardal yr eiddo sy'n destun apêl o'r fath. Roedd y sylwadau hefyd yn cwestiynu'r sail ar gyfer dileu hawl i apelio.

28. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod safbwyntiau gwahanol rhanddeiliaid ac yn parhau o'r farn bod mesurau Covid-19 yn amodau ar draws y farchnad ac na ddylid eu trin fel Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau. Mae'r safbwynt yn cadw mewn cof y dehongliad o'r gyfraith achosion bresennol, yr effaith bosibl ar arian

cyhoeddus, manteision bod yn gyson â gweinyddiaethau eraill, eglurder a chysondeb i dalwyr ardrethi, a'r effeithiau gweinyddol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.

Y camau nesaf

29. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud Rheoliadau, yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth fel y'i drafftwyd. Bydd partiön â diddordeb yn cael eu hysbysu ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gwneud a'u gosod.

Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Daeth ymatebion i law oddi wrth y canlynol.

Ffederasiwn y Busnesau Bach

GL Hearn Limited

Y Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio

Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru

Roedd dau ymatebydd yn dymuno aros yn ddiennw.